

Datblygu Rhagoriaeth mewn Gofal Iechyd
Fframwaith Datblygu Sgiliau a Gyrfa GIG Cymru
Ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i gefnogi
Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau'r
Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu
Shared Services
Partnership
Workforce, Education and Development Services



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu'r GIG
Shared Services
Partnership
NHS Workforce, Education and Development Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYSYLLTWCH Â NI

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan
www.weds.wales.nhs.uk

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â ni ar 01443 848585
neu e-bostiwrch abm.wedsteam@wales.nhs.uk
Lleolir WEDS yn 4-5 Charnwood Court, Heol Billingsley
Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QZ

Dyddiad cyhoeddi Tachwedd 2015

Cyhoeddwr a Hawlfraint Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru

Fformatau eraill: Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael fel dogfen pdf yn Gymraeg a Saesneg drwy ein gwefan

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn fel copi caled, mewn ffont mwy neu mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy ein gwefan, drwy e-bost neu dros y ffôn

Cynnwys

1. Pwrpas	4
2. Cyflwyniad	4
3. Cefndir Polisi	5
4. Cefndir	6
5. Disgrifiad o'r Fframwaith Datblygu Sgiliau a Gyrfa hwn	7
6. Lefelau Gyrfa	8
7. Manteision	8
8. Nodweddion y Fframwaith Datblygu Sgiliau a Gyrfa	9
8.1 Diffiniad Rôl a Sgôp Disgrifyddion y Practis	9
8.2 Llwybrau Dysgu	11
9. Casgliad	21
10. Geirfa	22
11. Cyfeiriadau	22

1. Pwrpas

Pwrpas y Fframwaith hwn yw darparu mecanwaith llywodraethol i fwydo'r datblygiad o sgiliau a gyrfa'r gweithlu Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) yn GIG Cymru. Mae'r adnodd hwn yn berthnasol i holl rolau Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP). Bydd yn cefnogi datblygiad rolau cyfredol ac i'r dyfodol drwy safoni sgôp y rolau hyn, a thrwy ddatblygu'r Llwybrau Dysgu bydd yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd yn greiddiol i fedru ymarfer yn ddiogel. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi gyrfaedd HCSW ac yn cynyddu'r gallu i broffesiynoli'r gweithlu craidd, gan adeiladu ar y safon uchel o wasanaethau a ddarperir i unigolion gan y gweithlu hwn.

2. Cyflwyniad

Mae rolau newydd yn debygol o amlygu eu hunain sy'n defnyddio cyfuniad o sgiliau'r staff presennol mewn gwahanol ffyrdd a bydd cyflawni hyn yn galw ar argaeledd effeithiol a pharod. Golyga newidiadau i sut ac ymhle y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol y bydd cyflogwyr yn gynyddol ddatblygu eu gweithlu o weithwyr cymorth i gwrdd â heriau'r gwasanaeth, ariannol a'r gweithlu, yn awr ac i'r dyfodol.

Gall cyflogeion yn aml deimlo eu bod yn cael eu hatal neu eu heithrio rhag bod yn rhan o'r sefydliad pan fydd cyfleoedd datblygu'n ymddangos yn gyfyngedig. Yr ateb yw i sefydliadau osod llwybrau datblygu a gyrfaol gwirioneddol sy'n cael eu rheoli'n bwrpasol ac sy'n cynnig cyfleoedd datblygu clir a phendant er budd y gweithlu.

Bydd mabwysiadu dull Cymru gyfan ar gyfer cyfleoedd datblygu i gefnogi'r gweithlu



gweithiwr cymorth drwy weithredu'r Fframwaith hwn, o gymorth wrth gyflawni amryw o fanteision i weithwyr cymorth unigol ynghyd â sefydliadau a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth ddefnyddio fframwaith gyrfa sicrhaf y gallu i gyfnwio rhwng cyflogwyr, gan adlewyrchu'r defnydd synhwyrol o adnoddau a'i gwneud hi'n haws i staff ddeall y disgwyliadau a'r safonau sy'n ofynnol iddynt eu bodloni. Bydd adnabod gofynion addysg Cymru gyfan ar gyfer HCSWau fel rhan o'r Fframwaith hwn yn darparu rhaglen safonol o ddatblygu. Ble

bynag y bydd hi'n bosibl, achredir yr addysg er mwyn rhoi'r sicrwydd i GIG Cymru ac i'r defnyddwyr gwasanaeth o ansawdd a safon yr addysg honno. Am y tro cyntaf erioed, bydd gan HCSWau yng Nghymru eu safonau, eu cymwyseddau a'u hyfforddiant gofynnol ar gyfer ymarfer, wedi ei osod allan fel gofyniad cenedlaethol i fedru darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

3. Cefndir Polisi

Yn unol â gwledydd datblygedig eraill, mae'r system gofal iechyd yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau: galw cynyddol, anghyfartaledd mewn iechyd, disgwyliadau cynyddol ymhlith y cyhoedd, gweithlu sy'n heneiddio, prinder staff, pwysau cyllidebol ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Gofynnodd y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Comisiwn Bevan ystyried sut mae Cymru'n gwneud y mwyaf o'r adnoddau mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau'r ddarpariaeth o ofal o'r radd flaenaf a chyson ledled Cymru. Ymatebodd y Comisiwn drwy ddweud "na fyddai amgylchiadau yn caniatáu i sefyllfa sydd ohoni barhau yn GIG Cymru."

Argymhellodd hefyd y dylid mabwysiadu gofal iechyd pwylllog er mwyn darparu gwasanaeth iechyd cost effeithiol. 'Moderneiddio' gweithlu yw un o'r strategaethau ar gyfer cwrdd â'r heriau o ddarparu gofal iechyd gofalus a gyrru'r newidiadau angenrheidiol. Bu ystod o newidiadau i'r gweithlu dros y degawd diwethaf ond mae angen rhagor o newidiadau os ydym am gyflwyno a chynnal ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd angen i sefydliadau sicrhau y bydd gan y bobl y sgiliau a'r cymwyseddau cywir, y bydd digon o'r bobl hynny, a'u bod yn y rolau cywir. Mae cryfhau datblygiad y gweithlu drwy hyfforddiant a dysgu yn y gwaith i sicrhau gweithlu cymwys, hyblyg a chynaliadwy, yn flaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru. (Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau 2014).

Er bod hyblygrwydd ac amrywiaeth rolau gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gryfder mawr, mae amrywiaeth eang mewn swydd ddisgrifiadau a theitlau yn ei gwneud hi'n anodd diffinio rolau, Yn ogystal, ar hyn o bryd, ledled y Deyrnas Unedig nid yw gweithwyr

cymorth gofal iechyd yn cael eu rheoleiddio. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai cyflogwyr ddylai fod â'r prif gyfrifoldeb dros staff heb eu rheoleiddio yn hytrach nag awgrymu diwygiad rheoleidiol ac mae'r Llywodraeth wedi cefnogi'r angen am systemau sicrwydd digonol. Cyfrifoldeb y cyflogwyr yw hi felly i sicrhau bod y prosesau ganddynt mewn grym i ddarparu gofal diogel.

Mae Strategaeth GIG Cymru am Weithlu Hyblyg a Chynaliadwy (2008) yn nodi nifer o argymhellion penodol ar gyfer HCSWau yn cynnwys datblygu llwybrau gyrfa, er mwyn darparu dull safonol a chyson wrth ddatblygu a rheoli HCSWau. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nifer o adnoddau gweithlu i roi cymorth i sefydliadau gyda'u mentrau ar gyfer gweithlu gweithwyr cymorth gofal iechyd lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cod Ymddygiad i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru (2011) a Chod Ymddygiad i Gyflogwyr GIG Cymru (2011).** Mae'r Codau yn rhoi diffiniad o HCSWau ac yn gosod y safonau sy'n

ofynnol gan HCSWau a'u cyflogwyr. Mae'r Codau yn cynnig fframwaith sicrwydd er diogelwch y cyhoedd;

- Mae **Arweiniad Cymru Gyfan ar Ddirprwyaeth (2010)** yn rhoi diffiniad o ddirprwyaeth ac yn egluro'n benodol beth yw cyfrifoldebau ac atebolrwydd staff cofrestredig ac anghofrestredig sydd ynghlwm â'r broses ddirprwyo;
- **Ariannu Canolog** i gefnogi'r hyfforddiant a'r datblygiad o fandiau 1-4 sydd ar gael yn flynyddol i sefydliadau.

Mae'r cynnyrch moderneiddio'r gweithlu hyn, ynghyd â'r Fframwaith hwn yn darparu cronfa o adnoddau i gefnogi'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer rheoli a chynnal yr HCSWau yn ddiogel.

4. Cefndir

Mae HCSWau yn cynrychioli 41% o weithlu GIG Cymru ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddarparu gwasanaeth ym mhob maes, gyda dros hanner y 41% yn gweithio mewn rolau sy'n cefnogi nyrsys ac AHPau. Mae diddordeb yn eu haddysg, hyfforddiant a datblygiad dros y blynyddoedd diweddar wedi tyfu o ganlyniad i nifer o fethiannau amlwg yn y sector iechyd. O ganlyniad i hynny mae'r elfen gyntaf o'r Fframwaith yn canolbwyntio ar weithio'n benodol yn y meysydd hyn.

Awgryma'r gwaith o broffilio gweithlu bod 80% o weithlu GIG y dyfodol yn eu swyddi heddiw. Mae angen gwell blaenoriaethu felly i ddatblygu sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu presennol, er mwyn medru bodloni anghenion defnyddwyr y gwasanaeth heddiw ac yfory. Drwy beidio â meithrin capasiti a galluogrwydd yn ein gweithlu ceir perygl o grwydro oddi ar y llwybr yn rheolaidd a pharhau i

hyfforddi a datblygu gweithlu i ymdrin ag anghenion gofal iechyd heddiw nid yfory. Mae'r rhan o'r gweithlu sy'n cael y cyflog uchaf ar hyn o bryd yn denu'r rhan fwyaf o'r sylw a'r gyllideb hyfforddi. Mae gwir angen felly datblygu a buddsoddi mewn HCSWau sy'n gweithio mewn gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai ac mewn gweithwyr iechyd sy'n gweithio ym mhob rhan o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mewn ffordd fwy priodol a chynlluniol.

Datblygwyd y Fframwaith hwn yn bennaf i gefnogi'r HCSWau hynny a gyflogir gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Fodd bynnag gellir defnyddio'r egwyddorion yn yr un modd ar gyfer HCSWau sy'n gweithio mewn Gofal Sylfaenol a'r Sector Annibynnol a'r Trydydd Sector.



5. Disgrifiad o'r o'r Fframwaith Datblygu Sgiliau a Gyrfa hwn

Mae fframwaith gyrfa a ddyluniwyd yn dda yn cynnig strategaeth ar gyfer llywio a chefnogi datblygiad gyrfa. Mae'n adnodd gweithlu sy'n gosod y camau i gyflogai fedru paratoi ar gyfer datblygiad sy'n cydfynd â blaenoriaethau'r sefydliad. Dyluniwyd y Fframwaith i wneud defnydd effeithiol o allu'r cyflogai mewn perthynas ag anghenion newidiol y sefydliad, ond nid yw serch hynny yn fecanwaith sy'n sicrhau llwybr at ddrychafiad fel mater o drefn. Mae Fframwaith Gyrfa HCSW yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) a chymwyseddau, gan roi'r pwyslais ar y sgiliau a'r wybodaeth yn hytrach na'r swydd neu'r rôl. O ganlyniad mae'r dull hwn yn galluogi mwy o hyblygrwydd a symud staff. Gallai unigolion symud o weithio i un sefydliad i weithio i un arall, neu gallai unigolion symud o un maes arbenigol i un arall e.e. iechyd meddwl i wasanaethau deietegol.

Bydd yr adnodd gweithlu rhyngweithiol ar-lein hwn yn galluogi HCSWau a'u rheolwyr i adnabod y llwybr gyrfa ar gyfer eu rôl HCSW bresennol, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan y gwasanaeth. Yn ogystal, bydd yr adnodd yn cefnogi unigolyn i ddatblygu rhagor o sgiliau gan felly alluogi trosglwyddiad i faes arall petai angen hynny gan y gwasanaeth.

I sicrhau cysondeb gydag adnoddau gweithlu arall ac i osgoi unrhyw ddryswch wrth ddeall, mae ystyr a diffiniad y termau allweddol wedi eu rhestru mewn Geirfa ar ddiwedd y ddogfen hon.



6. Lefelau Gyrfa

Bydd y Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar Lefelau Fframwaith Gyrfa 2-4 yn unol â'r hyn a fanylir arno yn y Fframwaith Sgiliau ar gyfer Gyrfa mewn Iechyd yn hytrach na'r Bandio Agenda ar gyfer Newid.

7. Manteision

Bydd Fframwaith Datblygu Sgiliau a Gyrfa Iechyd Cymru Gyfan o fudd i'r sefydliad a'i gyflogeion. Dengys tystiolaeth y cysylltiad rhwng hyfforddi a datblygu staff a safon well o ofal a chanlyniadau. Rhaid iddo ffio o fewn diwylliant y sefydliad, gosod disgwyliadau realistig i gyflogeion a rhoi cymorth i unigolion ddatblygu eu cymwyseddau gofynnol i ymarfer yn ddiogel. Bydd y manteision yn:

- Rhoi arweiniad cadarn a chyson ar gyfer addysg a hyfforddiant i sicrhau y bydd adnoddau i'r dyfodol yn cael eu targedu a'u defnyddio'n unol â'r agenda gofal iechyd pwylog ac yn bodloni anghenion gwasanaeth i'r dyfodol yn fwy effeithiol;
- Rhoi cymorth i sefydliadau ddeall ymhle y canolbwyntir doniau'r gweithlu a pha mor barod, neu amharod, yw'r gweithlu hwnnw i fodloni anghenion a heriau'r dyfodol;

- Dangos sut ellir datblygu a chadw HCSWau wrth wella perfformiad y sefydliad lawn yn llaw â hynny;
- Darparu mecanwaith i reolwyr bennu pa mor barod yw'r doniau presennol o ran cyfarpar i fodloni anghenion y gwasanaeth. Yn sylfaenol, bydd y Fframwaith Gyrfa hwn o gymorth wrth adnabod y cymwyseddau a'r sgiliau a'r rolau yn sgil hynny sydd eu hangen gan y sefydliad;
- Darparu adnodd ychwanegol i hwyluso'r Arolwg Datblygu Gwerthusiad Personol (PADR) wrth gefnogi datblygiad gyrfa;
- Cefnogi agenda gweithlu trosfwaol GIG Cymru drwy gael gweithlu HCSW mwy bodlon ac ymgysylltiol;
- Cefnogi'r ymdrech i gadw staff a chynllunio ar gyfer olyniaeth, gwella ysbryd staff, parchu ymrwymadau polisi, darparu llwybr datblygu gyrfa a llwybr posib i gael mynediad at alwedigaeth gofrestrdig.

8. Nodweddion y Fframwaith Datblygu Sgiliau a Gyrfa

Bydd yr adran nesaf yn rhoi disgrifiad o bob rhan o'r Fframwaith hwn.

8.1 Diffiniad Rôl a Sgôp Disgrifyddion y Practis

Sefydlwyd diffiniad ar gyfer HCSW gan GIG Cymru yn 2011. Mae diffiniad y rôl o fewn y Fframwaith yn seiliedig ar y diffiniad hwnnw a roddwyd yng Nghod Ymddygiad i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru. Mae'r diffiniad hwn yn eang yn fwriadol er mwyn cwmpasu'r holl HCSWau sy'n gweithio ar Lefelau 2 i 4 o'r Fframwaith Gyrfa. Er mwyn darparu rhagor o fanylion penodol sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n ddisgwyliedig, datblygwyd disgrifydd ymarfer ar gyfer pob lefel, i gynnwys y wybodaeth sylfaenol ofynnol. Mae'r disgrifyddion hyn yn amlinellu pa dasgau a ymgwymerir gan HCSWau o ddydd i ddydd. Mae'r tabl dros y dudalen yn rhoi diffiniad rôl a sgôp ymarfer ar gyfer pob lefel GIG Cymru.

Dylid nodi y bydd gan yr HCSWau sydd ar Lefel 3 yr holl rinweddau, sgiliau a gwybodaeth yn unol â'r rhai a ddisgrifir ar gyfer Lefel 2. Bydd gan HCSWau Lefel 4 yr holl rinweddau, sgiliau a gwybodaeth a ddisgrifir ar gyfer Lefel 2 a 3. Bydd hyn o gymorth i sefydliadau ac unigolion wrth adnabod llwybrau datblygu gyrfa.



Diffiniad y Rôl

Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn darparu gwasanaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol i unigolion mewn amryw o sefyllfaoedd gofal. Maent yn cynnal ystod o ddyletswyddau dirprwyol dan oruchwyliaeth briodol.

Lefel 2 Sgôp Disgrifydd yr Ymarfer

Bydd HCSW Lefel 2 ar brydiau yn gweithio dan ddirprwyaeth ymarferydd cofrestredig neu ymarferydd cynorthwyol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Disgwylir iddo weithio fel rhan o dîm gan roi gofal o fewn protocolau a ddiffinnir, dan oruchwyliaeth ac yn adrodd i ymarferydd cofrestredig/ymarferydd cynorthwyol. Bydd yn gyfrifol am ddilyn cynlluniau gofal a chofnodi holl arsylwadau personol a dogfennu'r gofal a roddir yn nodiadau'r unigolyn.

Gofyniad Addysg – Isafswm o 46 credyd o unrhyw golofn o Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru wedi ei fapio i rôl swydd yr unigolyn ar Lefel 2 (a rhaid i 60% ohoni fod ar Lefel 2).

Lefel 3 Sgôp Disgrifydd yr Ymarfer

Mae gan HCSW Lefel 3 fwy o hunan ryddid a gall ymgymryd ag ystod ehangach o ymyriadau mwy cymhleth, datrys problemau a gweithredu ar faterion iechyd a gofal yr unigolyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r sefydliad. Bydd yn gweithio ar ei fenter ei hun, yn ymgymryd â thasgau dirprwyol gyda goruchwyliaeth briodol gan ymarferydd cofrestredig/ymarferydd cynorthwyol. Dylai gyfrannu at waith asesu a chynorthwyo gyda datblygiad, gweithredu a gwerthuso cynlluniau gofal unigol. Bydd yn medru goruchwyllo staff eraill a bydd yn hyrwyddo'r cyflawniad o ofal unigol o safon uchel.

Gofyniad Addysg – Isafswm o 58 credyd o unrhyw golofn o Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru wedi ei fapio i rôl swydd yr unigolyn ar Lefel 3 (a rhaid i 60% ohoni fod ar Lefel 3).

Lefel 4 (Ymarferydd Cynorthwyol) Sgôp Disgrifydd yr Ymarfer

Disgwylir i Ymarferydd Cynorthwyol Lefel 4 reoli'i waith a'i lwyth achosion ei hun yn annibynnol, gan ymgymryd â thasgau a ddirprwywyd gan ymarferydd cofrestredig gyda lefel briodol o oruchwyliaeth yn bodoli. Gyda dealltwriaeth o ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth a darparu gofal yn unol â'r dystiolaeth gyfredol, bydd yn gyfrifol am weithredu mewn perthynas ag iechyd a gofal yr unigolyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r sefydliad. Bydd yn gyfrifol am rai elfennau o waith asesu, gweithredu cynlluniau gofal ac addasu cynlluniau gofal unigol, gan adrodd yn ôl i'r ymarferydd cofrestredig. Gall ddirprwyo gwaith i eraill ynghyd â goruchwyllo, dysgu ac asesu staff eraill.

Gofyniad Addysg – Isafswm o 120 credyd ar Lefel 4 (a rhaid i 60% ohoni fod ar Lefel 4).

8.2 Llwybrau Dysgu

Cyflwynir Llwybrau Dysgu i GIG Cymru er mwyn i'r holl HCSWau gael eu hyfforddi a'u datblygu mewn ffordd gyson sy'n berthnasol i'w rolau unigol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol. Er y cydnabyddir bod rhai HCSWau wedi cyflawni'r llwybrau hyn nid felly i bawb. Bydd hyn yn galluogi'r HCSW hynny i ddatblygu hyd at y safon ofynnol gan sicrhau cysondeb ledled Cymru. Mae mynediad i'r llwybrau datblygu clir hyn drwy ddysgu cydnabyddedig yn y gweithle i gyflogaion y dyfodol yn rhoi cyfle apelgar i bobl ifancach sy'n dymuno ymuno â'r gweithlu, neu i weithwyr mwy profiadol newid gyrfa. Bydd y defnydd llawn o'r Llwybrau hyn yn galluogi GIG Cymru i ddenu a phenodi'r gweithlu gorau i'r dyfodol a chynyddu proffesiynoldeb y gweithlu presennol wrth wneud hynny.

Bydd gan HCSWau sy'n gweithio yn y meysydd Nyrsio, Bydwreigiaeth ac AHP a restrir yn y tabl (ar y dde), Llwybrau Dysgu mewn grym ar gyfer eu rolau penodol.

Nyrsio a Bydwreigiaeth

Oedolyn

Anableddau Dysgu

Iechyd Meddwl

Bydwreigiaeth

Pediatrig

AHP

Therapiau Celfyddydol

Seicoleg Glinigol

Deieteg

Therapi Galwedigaethol (OT)

Ymarfer Adran Lawfeddygol

Orthopteg

Parafeddygon

Ffisiotherapi

Trin Traed

Orthoteg

Radiograffeg

Therapi Lleferydd ac Iaith (SLT)



Mae'r Llwybrau Dysgu hyn yn adnabod y sgiliau a'r wybodaeth sy'n sicrhau'r datblygiad llawn o HCSWau yn eu rolau presennol. Mae'r Llwybrau hefyd yn ffordd o sicrhau cynnydd petai hyn yn ofyniad am wasanaethau gan y sefydliad neu'n ddyhead gyrfaol gan HCSWau unigol. Amlygir y datblygiad drwy bortffolio o dystiolaeth a dysgu myfyriol a fesurir drwy'r broses PADR. Bydd angen i bob HCSW gwblhau 20 awr o leiaf o ddatblygu personol (CPD) dros bob cyfnod o 3 blynedd o gyflogaeth. Bydd hefyd yn eu galluogi i ddatblygu yn eu gyrfa o fewn eu maes dewisol neu drosglwyddo i fath arall o nyrsio neu wasanaeth AHP. Cefnogir HCSWau gan eu sefydliad i gyflawni eu Llwybrau Dysgu drwy ddarparu cyfleoedd priodol i ddysgu a datblygu. Dylid cyflawni'r Cymwyseddau Craidd cyn pen chwe mis ers penodi, gyda'r sgiliau penodol-i'r-rôl priodol yn cael eu cyflawni cyn pen deuddeg mis os yw hynny'n bosibl, ond dim hirach na deunaw mis.

I grynhoi mae'r Llwybrau Dysgu hyn:

- Yn barhad o ddysgu drwy Ymsefydlu trwodd i gyflawni'r sgiliau sy'n berthnasol i'r rôl
- Yn ddatrysiad i'r amrywiaeth o ddulliau i ddatblygu a chyflawni hyfforddiant ar gyfer HCSWau ledled Cymru
- Yn galluogi trosglwyddo a symud staff rhwng gwahanol rannau o'r gwasanaeth.
- Yn arwain at fwy o sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o ran sgiliau a chymwyseddau'r HCSWau

Bydd pob Llwybr Dysgu yn cynnwys pedair elfen:


- Ymsefydlu
- Sgiliau Hanfodol Cymru
- Cymwyseddau Craidd
- Sgiliau sy'n berthnasol i bobl rôl a amlygir

Cydnabod Dysgu Blaenorol

Bydd angen i sefydliadau gynnal arolwg o unrhyw hyfforddiant a datblygiad a gwblhawyd gan ei HCSWau. Bydd hyn yn amlygu anghenion datblygu'r unigolyn HCSW. Os bydd unigolyn wedi cyflawni'r addysg ofynnol eisoes cydnabyddir ei lwyddiant ac ni fydd gofyn

iddo gwblhau ei hyfforddiant eilwaith. Dylai sefydliadau ddefnyddio'u Polisiâu Cydnabod Dysgu Blaenorol pan fydd HCSWau wedi cwblhau hyfforddiant a datblygiad anffurfiol er mwyn cydnabod eu llwyddiant ac i osgoi dyblygu a chost.

GOFYNION DYSGU HCSW CYMRU GYFAN



FFRAMWAITH DATBLYGU SGILIAU A GYRFA GIG CYMRU AR GYFER GWEITHWYR CYMORTH GOFAL IECHYD I GEFNOGI NYRSIO A GWEITHWYR PROFFESIYNOL PERTHYNOL I IECHYD

8.2.1 Ymsefydlu

Ar ôl eu penodi bydd pob HCSW yng Nghymru yn cwblhau rhaglen ymsefydlu sylweddol sy'n cynnwys Fframwaith Hyfforddi Sgiliau Craidd y Deyrnas Unedig (sy'n ofynnol gan yr holl staff sy'n gweithio yn GIG Cymru) ynghyd â Rhaglen Ymsefydlu. Bydd hyn yn ychwanegol i unrhyw ymsefydlu gan sefydliad corfforaethol. Bydd hyn yn rhoi'r wybodaeth graidd i HCSWau i ymarfer mewn modd diogel, tosturiol ac urddasol yn eu maes a bydd yn cynnwys y canlynol:

- Ymddygiad
- Urddas, parch a thosturi
- Gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymwybyddiaeth o anghenion yr unigolyn
- Cyfathrebu, gwrando'n bwrpasol ac ymateb
- Pwysigrwydd o sylwi ac ymateb yn briodol
- Adnabod dirywiad mewn claf
- Codi materion a phryderon
- Gwerthoedd sefydliadol
- Myfyrio ar y cyfnod ymsefydlu

Bydd sefydliadau GIG Cymru yn sicrhau y bydd pob HCSW newydd a benodir yn cwblhau'r Rhaglen Ymsefydlu Orfodol Cymru Gyfan hon

cyn pen pythefnos ar ôl cychwyn mewn swydd a chyn cychwyn eu gwaith ymarfer. Fel rhan o'r broses PADR gall rheolwyr adnabod staff presennol a ddylai gwblhau'r rhaglen hefyd er mwyn iddynt hwythau wella'u gwybodaeth. Bydd y rhaglen hon yn uned achredig o ddysgu gydag asesiad trylwyr gan felly roi hyder yn safon y Rhaglen o'r cychwyn cyntaf a sylfaen gadarn i fedru datblygu'n barhaus. Yn hanesyddol ni fu dull safonol ar gyfer ymgynffwrdd perthnasol i'r grŵp hwn o staff a bydd yr adnodd hwn yn datrys hynny.

8.2.2 Sgiliau Hanfodol Cymru

Bydd cynnwys Cyfathrebu, Defnydd o Rif a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn y llwybr yn sicrhau y bydd anghenion dysgu'r unigolion yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosibl a'u cynnwys os bydd angen fel rhan o'r Rhaglen Ymsefydlu. Bydd hyn yn ategu effeithiolrwydd y dysgu a'r perfformio o fewn amgylchedd dysgu i'r rhai sydd angen hynny.

“Rwy'n croesawu'r gwaith o hyfforddi HCSWau. Mae hyfforddiant parhaus yn allweddol i ofal o safon uchel. Mae'r Fframwaith yn cwmpasu'r sgiliau sydd yn angenrheidiol i fod yn aelod effeithiol a phwysig o'r tîm ac yn caniatáu i'r HCSWau fedru datblygu gan sicrhau eu bod yn datblygu gyrfa yn hytrach na swydd yn unig.”

RHEOLWR HCSW ANHYSBYS

8.2.3 Cymwyseddau Craidd

Bydd angen i holl HCSWau Cymru barhau i gynnal y Cymwyseddau Craidd dysgu a amlygwyd. Wrth wraidd y cymwyseddau hyn hefyd fydd unedau achredig o ddysgu ar y lefel briodol o ddysgu.



Mae'r gwaith ar lefel Cymru Gyfan i gytuno ar y cymwyseddau craidd ar gyfer HCSWau ar Lefelau 2, 3, a 4 wedi ei gwblhau. Bydd adnabod yr addysg achredig perthnasol ar y lefel ofynnol ar gyfer pob cymwysedd yn sicrhau y bydd HCSWau yn llwyddo ar lefel gyson o allu ledled Cymru. Mae'n cynnig gwaelodlin

o gymwysedd a sylfaen o wybodaeth ac ansawdd a fydd yn sicrhau sgiliau'r staff hyn mewn meysydd craidd. Mae'r tabl isod yn manylu ar y cymwyseddau craidd hynny y bydd pob HCSW yng Nghymru yn ei gyflawni yn y dyfodol. Mae pob cymhwysedd yn seiliedig ar Safon Alwedigaethol Genedlaethol (NOS)

sy'n rhoi cyfle i gynyddu'r gwaith i'r dyfodol mewn iechyd a gofal iechyd. Mae pob cymwysedd yn cael ei fapio i Ddimensiwn Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG (KSF).

Teitl Cymhwysedd Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	Dimensiynau Craidd KSF
Cyfathrebu'n effeithiol mewn amgylchedd iechyd gofal	1. Cyfathrebu
Cefnogi cyfathrebu effeithiol	
Cynnal gwaith trosglwyddo rhwng staff iechyd gofal	
Ymgysylltu ag unigolion drwy ddefnyddio telegyfathrebu	
Cysodi a chyfleu gwybodaeth iechyd i unigolion	
Cyfrannu at y gwaith o unigolyn yn gadael un gwasanaeth gofal ac yn trosglwyddo i un arall	
Derbyn, cyflwyno, storio a chasglu gwybodaeth	2. Datblygu Personol a Phobl
Datblygu'ch gwybodaeth a'ch ymarfer eich hun	
Rheoli'ch hun	

8.2.3 Cymwyseddau Craidd (parhad)

Teitl Cymhwysedd Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	Dimensiynau Craidd KSF
Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ar gyfer sicrhau cyfrinachedd mewn gofal iechyd	3. Iechyd a Diogelwch a Sicrwydd
Cynnal ymarferion iechyd, diogelwch a sicrwydd mewn cyd-destun iechyd	
Cynnal amgylchedd diogel a glân	
Gwaredu gwastraff clinigol ac anghlinigol o fewn gofal iechyd	
Lleihau'r risg o ledaenu heintiau drwy lanhau, diheintio a chynnal amgylcheddau	
Glanhau dwylo i atal heintiau rhag lledaenu	
Glanhau, diheintio a chael gwared â gwaed a hylif arall o'r corff sydd wedi eu tywallt yn ddamweiniol i leihau'r risg o heintio	
Lleihau'r risg o ledaenu heintiau drwy lanhau, diheintio a chadw offer gofal	
Defnyddio offer diogelu personol i atal lledaenu heintiau	
Gwaredu gwastraff gofal iechyd yn ddiogel, yn cynnwys offer miniog, i atal lledaenu heintiau	
Cefnogi iechyd a diogelwch eich hun ac unigolion eraill	
Amddiffyn eich hun rhag y perygl o drais yn y gweithle	
Datrys a gwerthuso digwyddiadau treisgar yn y gweithle	
Cyfrannu at symud a lleoli unigolion	
Paratoi a gwisgo ar gyfer y gwaith mewn sefyllfaoedd gofal iechyd	4. Gwella Gwasanaeth
Cyfrannu at atal a rheoli ymddygiad treisgar a bygythiol	
Gweithio gydag eraill i wella gwasanaeth cwsmer	
Cyfrannu at wella gwasanaethau	
Hyrwyddo gwelliant parhaus	

8.2.3 Cymwyseddau Craidd (parhad)

Teitl Cymhwysedd Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	Dimensiynau Craidd KSF
Gweithredu o fewn terfynau eich cymwysedd a'ch awdurdod	5. Ansawdd
Monitro eich ymarferion eich hun	
Cyfrannu at effeithiolrwydd timau	
Hyrwyddo effeithiolrwydd timau	
Cynnal hawliau unigolion	6. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Meithrin cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau pobl	
Cefnogi diogelwch unigolion	7. Iechyd a Lles
Cyfathrebu gydag unigolion ynglŷn â hyrwyddo eu hiechyd a'u lles	
Galluogi unigolion i newid eu hymddygiad i wella eu hiechyd a'u lles eu hunain	
Cefnogi unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles cymdeithasol eu hunain	
Cyfrannu at ddelio â sefyllfaoedd lle ceir risg o berygl, niwed neu drais	
Datblygu cysylltiadau effeithiol ag unigolion	
Symud a lleoli unigolion	

8.2.4 Sgiliau sy'n Berthnasol i'r Rôl

Ar gyfer amryw o rolau HCSW datblygwyd addysg benodol ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, mewn nifer o feysydd datblygwyd a chyflawnwyd addysg ar lefel fwy lleol. Canlyniad hyn yw datblygu nifer fawr o unedau unigryw o ddysgu sydd â'r potensial o greu gwahanol safonau ledled Cymru, gan achosi dryswch i reolwyr gwasanaeth a chymylu'r gwaith datblygu mewn perthynas â HCSWau.

Lle amlygwyd a gweithredwyd y Llwybrau Dysgu hyn, bydd y Fframwaith yn eu casglu ynghyd i greu un adnodd er mwyn hwyluso cydraddoldeb a throsglwyddo. Ar gyfer y rolau hynny lle nad yw'r Llwybr Dysgu wedi ei adnabod hyd yma bydd GIG Cymru yn datblygu'r lefel briodol o addysg i'r dyfodol. Mae'r tablau gyferbyn yn cynnig enghreifftiau o lwybrau addysg ar gyfer HCSWau sy'n gweithio mewn Radioleg, Nyrso Aciwt i Oedolion neu Nyrso Cymunedol. Mae'r enghreifftiau yn dangos y llwybr datblygu a'r addysg sylfaenol ar gyfer pob Lefel o'r Fframwaith.



Datblygiad Gyrfu Gweithiwr Cymorth Radiograffeg

Lefel 4 HCSW (Ymarferydd Cynorthwyol)

Lefel uwch o wybodaeth a gallu

Gofyniad Addysg

Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Radiograffeg Gynorthwyol

Lefel 3 HCSW

Gwybodaeth uwch o ffeithiau, egwyddorion a phrosesau'r maes llafur

Gofyniad Addysg

Lefel 3 Fframwaith Prentisiaeth Cymorth Delweddu Clinigol (Iechyd) neu unedau Lefel 3 CQFW

- Nodweddion Sylfaenol Gofal
- Diogelwch ac Ymwybyddiaeth o Ymbelydredd
- Anatomi a Therminoleg

Uned Ddewisol – Y Defnydd o Gyfryngau Gwrthgyferbynnu mewn Delweddu Clinigol

Lefel 2 HCSW

Gwybodaeth ffeithiol sylfaenol o'r maes llafur, rhoi cymorth effeithiol i eraill

Gofyniad Addysg

Lefel 2 Fframwaith Prentisiaeth Cymorth Delweddu Clinigol (Iechyd) neu unedau Lefel 2 CQFW

- Nodweddion Sylfaenol Gofal
- Diogelwch ac Ymwybyddiaeth o Ymbelydredd
- Anatomi a Therminoleg

Datblygiad Gyrfu Gweithiwr Cymorth Aciwt neu Nyrsio Cymunedol i Oedolion

Lefel 4 HCSW (Ymarferydd Cynorthwyol)

Lefel uwch o wybodaeth a gallu

Gofyniad Addysg

Tystysgrif Addysg Uwch neu Modiwlau Lefel 4

Dewisol – unedau CQFW wedi eu mapio i'r rôl e.e. Lymphodema, Hyfywedd Meinwe, Gofal Diwedd Oes

Lefel 3 HCSW

Gwybodaeth uwch o ffeithiau, egwyddorion a phrosesau'r maes llafur

Gofyniad Addysg

Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu Lefel 3 Diploma mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol

Dewisol – unedau CQFW wedi eu mapio i'r rôl e.e. Fflebotomy, Gofal Stoma

Lefel 2 HCSW

Gwybodaeth ffeithiol sylfaenol o'r maes llafur, rhoi cymorth effeithiol i eraill

Gofyniad Addysg

Lefel 2 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu Lefel 2 Diploma mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol

Dewisol – unedau CQFW wedi eu mapio i'r rôl e.e. Maetheg, Gofal Hunanreolaeth

Gallai unrhyw addysg a ddatblygir un ai fod yn gymwysterau cyfan neu yn unedau dysgu. Achredir yr addysg a bydd yn rhan o Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW). Yn ogystal bydd yr addysg hon yn hwyluso cynnydd rhwng y lefelau yn ogystal ag i'r HCSWau hynny sy'n dymuno datblygu ymlaen i Alwedigaeth Gofrestredig. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i ddysgwyr ac i GIG Cymru o ansawdd y rhaglen gymhwyster a'r Corff Dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster. Ar hyn o bryd defnyddir addysg heb ei achredu i ddatblygu HCSWau mewn rhai sefydliadau. Mewn achosion o'r fath dylai hynny ategu nid disodli'r dysgu achredig. Bydd GIG Cymru'n datblygu mecanwaith i gynnig sicrwydd o ran safon y dysgu hwnnw i'r dyfodol.

Asesu a Llywodraethu

Ar gyfer pob maes o'r llwybr bydd angen mecanwaith asesu trylwyr i sicrhau y cyflawnir y wybodaeth, sgiliau a'r ddealltwriaeth berthnasol. Bydd angen egluro deilliannau dysgu a'r safon er mwyn llwyddo ym mhob un o'r meysydd dysgu yn glir. Bydd rôl yr Aseswyr yn hanfodol i'r HCSWau fedru cyflawni eu llwybrau dysgu a sicrhau bod y safon ofynnol yn cael ei chyrraedd.

“Rwy’n croesawu’r Fframwaith i fy ymarfer, oherwydd bydd yn sicrhau y byddaf yn gweithio’n ddiogel ac yn fedrus yn fy rôl. Os bydd pob gweithiwr iechyd gofal proffesiynol yn deall yn glir yr hyn sy’n sy’n ddisgwyliedig ohonynt, bydd hynny’n sicrhau y caiff cleifion y gofal gorau posibl a llwyddir i adnabod unrhyw feysydd sydd angen newid.”

RHEOLWR HCSW ANHYSBYS

9. Casgliad

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar nodweddion y Fframwaith ac yn rhoi'r sylfaen ar gyfer cwblhau'r adnodd ar-lein i GIG Cymru.

Cwblheir gwaith i adnabod y llwybrau addysg cyflawn sy'n bodoli eisoes a lle adnabyddir bylchau fe ddatblygir addysg a hyfforddiant un ai ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu sefydliadol.

Bydd yr adnodd cyflawn hwn yn galluogi:

- Rheolwyr a staff i gefnogi anghenion dysgu a chynlluniau gyrfya hirdymor i fodloni safonau gwasanaeth i'r dyfodol;
- Cynllunwyr y gweithlu i adnabod y lefelau ar ystod o sgiliau sy'n bodoli eisoes ymysg y gweithlu, a pha ddysgu sydd ei angen i gau'r bylchau mewn sgiliau;
- Darparwyr dysgu i gynorthwyo i gynllunio'r ddarpariaeth ddysgu a chyflawni arbedion maint;
- GIG Cymru i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella'r gwaith o fod yn ofalus drwy fodel o ddatblygu cydweithredol, comisiynu a darparu addysg HCSW.

Bydd cynnwys yr elfennau hyn o fewn y Fframwaith yn rhoi sicrwydd hefyd y bydd gan yr holl weithwyr cymorth y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol iddynt fedru cwblhau eu rolau, yn cefnogi'r gwasanaeth a datblygiad gyrfya a pharhau i adeiladu ar y safon uchel o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir gan HCWSau ledled Cymru. Yn ogystal, bydd adnabod yr addysg berthnasol yn sicrhau y bydd adnoddau'r dyfodol nid yn unig yn cael eu targedu ar gyfer y meysydd hynny sy'n cael yr effaith fwyaf, ond hefyd y bydd unrhyw anghenion addysg i'r dyfodol yn cael eu mapio i'r Fframwaith hwn, gan sicrhau y datblygir yr hyfforddiant mwyaf priodol. Bydd angen rhoi proses ar waith i sicrhau y bydd hyn yn digwydd yn amserol a bod y Fframwaith yn cael ei ddiweddarau ac yn berthnasol i sefydliadau.

Ar lefel strategol bydd y Fframwaith hwn o gymorth i sicrhau y bydd y GIG, fel y cyflogwr mwyaf yng Nghymru, yn deall yn glir pa anghenion datblygu fydd eu hangen ar gyfer HCSWau, ac wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r Sector Addysg i fodloni'r

anghenion hynny. Bydd cefnogi'r rhan hon o'r gweithlu fel hyn o gymorth wrth gadw staff a hyrwyddo'r GIG yng Nghymru fel y cyflogwr o ddewis.

Er mwyn gwireddu manteision llawn y Fframwaith hwn, bydd angen i sefydliadau roi tegwch o ran cyfleoedd i HCSWau ar gyfer eu datblygiad a'u cefnogi hefyd i lwyddo yn eu gwaith dysgu ac asesu perthnasol.



Geirfa

Achredu

Y broses a ddefnyddir lle mae rheoleiddwyr cymwysterau'n cadarnhau bod cymhwyster yn cydymffurfio â gofynion trefniadau rheoleiddiol Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW).

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Datganiadau yw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol o'r safonau o berfformiad y mae'n ofynnol i unigolion eu cyrraedd wrth gwblhau swyddogaethau yn y gweithle ynghyd â manylebau'r wybodaeth a'r dealltwriaeth sylfaenol.

Goruchwyliaeth

Gall goruchwyliaeth amrywio o ran yr hyn a gwmpasir gan hynny. Gall ymgorffori elfennau o gyfarwyddyd, arweiniad, arsylwi, cydweithio, trafodaeth, cyfnewid syniadau a chydgorio gweithgareddau. Gall fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn ddibynnol ar natur y gwaith a ddirprwyir. Mae'r penderfyniad ynghylch faint a'r math o oruchwyliaeth sydd ei angen gan weithiwr cymorth yn seiliedig ar fam yr ymarferydd cofrestredig, anghenion y claf/cleient, cyd-destun y gwasanaeth a'r tasgau a ddirprwyir.

Dirprwyo

Dirprwyo yw'r broses a ddefnyddir gan y sawl sy'n dirprwyo i bennu triniaeth glinigol neu anghlinigol neu ofal i berson cymwys. Bydd y sawl sy'n dirprwyo yn parhau'n gyfrifol am reolaeth gyffredinol defnyddiwr y gwasanaeth, ac yn atebol am y penderfyniad i ddirprwyo. Bydd y sawl sy'n dirprwyo yn atebol am benderfyniadau a gweithrediadau'r unigolyn a ddirprwyir iddo.

Credyd

Credyd yw dyfarniad a wneir i ddysgwyr fel cydnabyddiaeth o lwyddiant mewn deilliannau dysgu dynodedig ar lefel gredyd benodol.

Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru

Cyflwynwyd Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru yn 2003 fel fframwaith dysgu cynhwysol cyflawn. Mae'r Lefelau yn cwmpasu pob math o ddysgu o'r camau cychwynnol un (Mynediad) i'r un

uchaf un (Lefel 8). Mae'n galluogi cydnabyddiaeth a chymharu llwyddiannau o bob math o addysg a gweithred hyfforddi. Mae'r fframwaith yn cydnabod cwblhau rhannol a chwbl o gymwysterau ynghyd â'r ystod amrywiol o addysg a gweithred hyfforddi o fewn a thu allan i'r trefniadau rheoleiddiol a'r trefniadau ariannu.

Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau

Mae Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG yn diffinio a disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau y mae'n ofynnol i staff y GIG eu defnyddio yn eu gwaith er mwyn darparu gwasanaethau o safon. Mae'n darparu fframwaith sengl, cyson, cynhwysfawr ac amlwg y gellir seilio'r gwaith o adolygu a datblygu staff arno.

Corff Dyfarnu

Mar cyrff dyfarnu yn sefydliadau sy'n datblygu ac yn dyfarnu cymwysterau i fodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.

Aseswr

Yr unigolyn sy'n asesu gwaith y dysgwr.

Cydnabod Dysgu Blaenorol

Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol yn galluogi'r dysgwr i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth â thystiolaeth o un maes i'r llall waeth beth yw sefyllfa'r cyflogwr neu'r ganolfan asesu. Mae'n ddull o asesu sy'n arwain at ddyfarnu credyd, "sy'n ystyried a all dysgwyr ddangos y gallant fodloni gofynion asesu'r uned drwy wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd ganddynt eisoes ac felly'n rhydd o'r angen i ddatblygu hynny drwy ddysgu". (Trefniadau rheoleiddiol ar gyfer y CQFW).

Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau a Rheoliadau (Ofqual)

Mae ofqual yn rheoleiddio cymwysterau, arholiadau ac asesiadau yn Lloegr a chymwysterau galwedigaethol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n annibynnol o'r llywodraeth ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Cyfeiriadau

Sgiliau Hanfodol Cymru (2010) [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/qualificationtypesinwales/essentialskillsinwales/?lang=cy>

Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) (2008) GIG Cymru: *Strategaeth ar gyfer Gweithlu Hyblyg a Chynaliadwy*. Cymru. NLIAH

Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) (2010) *Canllaw Cymru Gyfan ar Ddirprwyo*. Cymru. NLIAH

Fframwaith Datblygu Sgiliau a Gyrfa <http://www.skillsforhealth.org.uk/workforce-transformation/customised-career-frameworks-services/>

Comisiwn Bevan (2011) 2008-2011 *NHS Cymru: Ffurio dyfodol gwell*. Cymru. Comisiwn Bevan

Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau a Rheoliadau (Ofqual) (2008). *Trefniadau rheoliadol ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau a Chredyd*. DU. Ofqual

Fframwaith Hyfforddi Sgiliau Craidd DU (2013) [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.skillsforhealth.org.uk/developing-your-organisations-talent/uk-wide-core-skills-training-framework/>

Llywodraeth Cymru (2004) *Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG (GIG KSF) a'r Broses Adolygu Datblygiad*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2011) *Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2011) *Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2014) *Datganiad polisi ar sgiliau*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru